



Ysgol Pentreuchaf

143. Polisi Tynnu Lluniau

Nod

Sicrhau ein bod yn ymateb yn bositif i'r cyfrifoldebau sydd yn codi o'r datblygiadau technolegol sy'n ei gwneud yn llawer haws defnyddio lluniau a delweddau mewn print ac ar y wê.

Canllawiau

1. Mae'r term 'lluniau' yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ffotograffiaeth (ffilm a digidol), fideo a chamerau ffôn symudol.
2. Lluniau i bwrpas preifat – i'w cynnwys mewn gwaith sydd i'w roi mewn ffeil neu lyfr, neu waith sydd i'w roi ar y waliau o gwmpas yr ysgol.
3. Lluniau cyhoeddus – gan y wasg neu gan yr ysgol i bwrpas unrhyw fath o gyhoeddusrwydd e.e. papur newydd neu safle wê.
4. mewn lluniau 'cyhoeddus' ble mae modd adnabod y plentyn o'r llun, neu os oes enwau yn cael eu cynnwys rhaid i ysgolion sicrhau caniatâd ysgrifenedig rhiant neu warchodwr, gan gadw cofnod o'r cytundeb.
5. Bydd pob rhiant o blentyn newydd yn Ysgol Pentreuchaf yn derbyn y canlynol:

Bellach, mae'n ofynnol i ysgolion gael caniatâd rhieni i dynnu lluniau ac enwi plant i bapur newydd, fideo o berfformiadau cyhoeddus, gwefan yr ysgol a.y.y.b.

Fe'n cynghorir i gynnwys y paragraff canlynol:

O dro i dro, bydd lluniau a fideos yn cael eu tynnu o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r ysgol. Gall rhai o'r lluniau yma gael eu rhoi yn y papurau newydd, eu cynnwys mewn cyhoeddiadau neu ar safleoedd gwê yr ysgol, Cyngor Gwynedd neu sefydliadau eraill y byddwn yn cydweithio â nhw.

Pwysig: Dylech nodi, os nad ydych yn rhoi eich caniatâd, y gall eich plentyn gael ei eithrio/heithrio o weithgareddau ble y bydd posibilrwydd iddo/iddi gael tynnu ei lun/llun fel rhan o grŵp mwy (e.e. mewn cyngerdd). Os dymunwch ddileu y caniatâd ar unrhyw adeg, cysylltwch â'r pennaeth.

Rwyf wedi darllen a deall yr amodau uchod ac rwy'n caniatâu i luniau ac enw fy mhleintyn gael eu defnyddio gan yr ysgol.

Arwyddwyd / Signed _____ (Rhiant / Parent)

Dyddiad / Date _____

Bydd y caniatâd yma yn parhau mewn grym hyd ddiwedd gyrfa y plentyn yn yr ysgol

6. Bydd yr ysgol yn cadw cofnod amlwg o unrhyw un sy'n gwrthwynebu tynnu lluniau o'u plant neu unigolion dan eu gofal gan sicrhau na fydd y disgyblion hynny yn cael tynnu eu lluniau.
7. Wrth yrru llun allan i drydydd parti dylid nodi yn glir i ba bwrpas y mae i gael ei ddefnyddio.
8. Yn arferol, ni ddylid tynnu lluniau plant mewn Canolfan Hamdden neu Bwll Nofio, ond os y gwneir, dylid sicrhau bod y disgyblion wedi eu gwisgo yn addas a dylai'r llun ganolbwyntio ar y weithgaredd.
9. Comisiynu Ffotograffwyr – mae gan y mwyafrif o ffotograffwyr proffesiynol (gan gynnwys rhai sy'n gweithio i bapurau newydd) gerdyn adnabod a thystysgrifau Criminal Records Beaureau. Fel arfer byddwn yn defnyddio Gwynant Parri i dynnu lluniau blynyddol i'w gwerthu i'r rhieni.

Casgliad

Cyhoeddir y polisi hwn er mwyn sicrhau fod rhieni yn deall y cefndir a'r drefn, a bod yr ysgol yn derbyn caniatâd i osgoi i unrhyw un gael ei erlyn am gamddefnyddio lluniau.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____